# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 24 Hydref 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Rôl y Cynulliad Cenedlaethol mewn Deddfwriaeth yn y Dyfodol

**C11 Peter Black:** Pa drafodaethau mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch rôl y Cynulliad Cenedlaethol mewn deddfwriaeth yn y dyfodol? (OAQ7252)

**Prif Weinidog Cymru:** Cefais drafodaethau aml â'r Ysgrifennydd Gwladol a'i gydweithwyr ar amrediad o faterion gan gynnwys rôl y Cynulliad Cenedlaethol mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

### Trafod â'r Cyfarwyddwr Lleihau Troseddu i Gymru

**C12 Jane Davidson:** Pa drafodaethau mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael â'r cyfarwyddwr lleihau troseddu i Gymru ynghylch troseddwyr ifanc yng Nghymru? (OAQ7257) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Targedau 'Gwellcymru.com'

**C13 Janet Ryder:** Pa fath o ymgynghori mae Prif Weinidog Cymru wedi ei wneud â'r cyhoedd i drafod y targedau sydd yn cael eu hamlinellu yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ7270) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Trafodaethau  i Leddfu Dyledion Gwledydd sydd yn Datblygu

**C14 John Griffiths:** A gafodd Prif Weinidog Cymru gyfle i drafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru sut y gallai'r Cynulliad gynorthwyo i leddfu dyledion gwledydd sydd yn datblygu? (OAQ7253)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd i drafod nifer o faterion. Mae'r swyddogion wedi derbyn sicrwydd bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod pethau'n bwrw ymlaen ar ôl yr Uwchgynhadledd G8 yn Okinawa.

### Datblygu Polisi ers 'Gwellcymru.com'

**C15 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddatblygiad polisi cyffredinol y Cynulliad ers mabwysiadu cynllun Gwell Cymru? (OAQ7259) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Hybu Cymru fel Lle Delfrydol ar gyfer Busnes

**C16 David Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddarparu manylion am yr ymgyrchoedd diweddaraf i hybu Cymru fel lle delfrydol i sefydlu busnes? (OAQ7248)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau i arwain wrth hybu Cymru fel gwlad a chanddi seilwaith diwydiannol cadarn; cysylltiadau cyfathrebu da; gweithlu rhagorol a hyblyg; a hinsawdd fusnes gadarnhaol. Mae Tîm Cymru yn gallu darparu amrediad cyflawn o wasanaethau o'r cyswllt cyntaf, cyngor ynghylch argaeledd eiddo, materion lleoli a gweithlu, hyd at gynghori darpar fuddsoddwyr ynghylch argaeledd cymorth grant i gynorthwyo â chostau sefydlu.

O'i ran ef, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol amrediad o grantiau sydd ar gael i gynorthwyo datblygiadau gan fusnesau cynhenid a chwmnïau tramor sydd yn dymuno buddsoddi yng Nghymru. A

llawer o Gymru wedi derbyn statws Amcan 1 a chyda Chynulliad Cenedlaethol sydd wedi ymrwymo i hybu datblygu economaidd, ni fu erioed adeg well i fuddsoddi yng Nghymru.

**Polisi Ewropeaidd Y Cynulliad Cenedlaethol**

**C17 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei ran yn natblygiad polisi Ewropeaidd y Cynulliad? (OAQ7273) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adrannau Llywodraeth (Swyddogaethau yng Nghymru)**

**C18 David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae Prif Ysgrifennydd Cymru wedi eu cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y swyddogaethau sydd yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd yng Nghymru gan Adrannau eraill y Llywodraeth? (OAQ7264) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Tasglu Ewropeaidd Cymru**

**C19 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am waith Tasglu Ewropeaidd Cymru? (OAQ7255)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr oedd Tasglu Ewropeaidd Cymru, a sefydlwyd yn Nhachwedd 1998 gan Peter Hain AS, yn ganlyniad i fenter ganolog gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Masnach a Diwydiant i sefydlu fforymau rhanbarthol a fyddai'n helpu busnesau i fwrw ymlaen â pharatoadau busnes yn lleol. Cefnogir y Tasglu gan y Cynulliad bellach ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yng Nghymru ymysg aelodau eraill. Cylch gwaith y Tasglu yw cynorthwyo busnesau yng Nghymru i roi sylw i'r goblygiadau ymarferol iddynt o fabwysiadu'r ewro yn rhan fwyaf yr Undeb Ewropeaidd, y mae gennym gysylltiadau masnachu helaeth ag ef; nid yw'n ymwneud ag ystyried a ddylai'r Deyrnas Unedig fabwysiadu'r ewro.

Er pan gyfarfu'r Tasglu gyntaf yn 1998, bu'n weithgar iawn wrth ddarparu cyngor ar faterion yn ymwneud â'r ewro a hybu ymwybyddiaeth. Gwnaethpwyd hyn drwy amryw o fesurau gan gynnwys cynadleddau, arddangosfeydd, llinell gymorth ffôn gyda chysylltiad â phanel arbenigol, gwefan wybodaeth a dosbarthu taflenni.

Y Cadeirydd ar hyn o bryd yw Peter Graham-Woolard, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithgynhyrchu'r DU yn Rizla UK Cyf. Bydd Mr Graham-Woolard yn rhoi cyflwyniad am waith y Tasglu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

**Hyrwyddo Rôl yr Iaith Gymraeg**

**C20 Gareth Jones:** Sut mae Prif Weinidog Cymru'n bwriadu hyrwyddo rôl yr iaith Gymraeg yn ystod y 12 mis nesaf? (OAQ7269) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyd-drefnu Datblygu Polisi**

**C21 Peter Rogers:** A oes gan Brif Weinidog Cymru gynlluniau i adolygu'r dulliau o gyd-drefnu datblygiad polisïau yn sgîl cyhoeddi 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ7251)

**Prif Weinidog Cymru:** Nac oes.

**Safbwyntiau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn Mesurau Cyhoeddedig Llywodraeth y DU**

**C22 Rhodri Glyn Thomas:** Yn ei gyfarfod diwethaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a gafodd Prif Weinidog Cymru drafodaeth ynglŷn â sut y gellid cynrychioli safbwyntiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn well ym Mesurau cyhoeddedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig? (OAQ7267) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Datblygu Polisi i sicrhau bod Anghenion Trawsbynciol yn cael eu Bodloni

**C23 Brian Hancock:** Pa gamau mae Prif Weinidog Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod polisïau'r Cynulliad yn cael eu datblygu i sicrhau bod anghenion trawsbynciol yn cael eu bodloni? (OAQ7260) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cabinet y Cynulliad (Swyddogaethau)

**C24 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ynghylch y modd y mae Cabinet y Cynulliad yn cyflawni ei swyddogaethau? (OAQ7265) ***Tynnwyd yn ôl.***